

Parallel.cymru

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

Cyfres Amdani: Y Fawr a'r Fach: Ymestynnwch eich Cymraeg gyda Jo Knell

ATEBION Pennod Saith

Tasg grŵp

Sut mae dweud?

a	Enillon nhw nifer o gystadlaethau.
b	Ro'n i'n ymarfer gyda thîm rygbi'r ysgol ar nos Lun a thîm Treorci ar nos Fercher.
c	Ro'n i'n ffit ond, rhywsut, ro'n i'n dal yn dew!
ch	Dych chi ddim eisiau ysbyty sydd yn edrych fel sied.
d	'Paid byth â dringo yn y chwarel.'
dd	Gofynnodd y nyrs sut ro'n i wedi brifo fy mraich.

Tasg i unigolion

Atalnodi

Ro'n i'n hoffi dringo. Roedd Dad yn mynd â fi a fy ffrindiau i Ganolfan Ddringo Cymru weithiau, yn Nelson. Basen nhw'n ein dysgu sut i ddringo a sut i ddod i lawr yn ofalus. Ond roedd hi'n dipyn o daith i Nelson ac ro'n i eisiau dringo o hyd. Ar ben y mynydd mae dwy chwarel oedd yn berffaith ar gyfer ymarfer dringo.